DWP

Department for Work and Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Credyd Cynhwysol: lles sy'n gweithio

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Mae llywodraethau olynol wedi anwybyddu'r angen am ddiwygio lles sylfaenol, nid oherwydd nad oeddent yn credu bod angen diwygio ond oherwydd eu bod yn meddwl ei fod yn rhy anodd i'w gyflawni.

Yn lle mynd i'r afael a phethau, gwnaethat wylio wrth i'r twf economaidd osgoi'r rhai hynny oedd yn waeth eu byd a dechreuodd dibyniaeth ar les fagu gwreiddiau mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad, gan fagu anobaith a thlodi rhwng cenedlaethau.

Gellir mesur maint y methiant hwnnw yn nhermau cyllideb lles oedran gweithio sydd wedi codi 45 y cant mewn termau real dros y ddegawd ddiwethaf tra bod tlodi ymysg oedolion o oedran gweithio wedi cynyddu a symudedd cymdeithasol wedi gostwng; mae'r Llywodraeth wedi gwario symiau enfawr o arian ond mae'r tlodion wedi dod yn gymharol dlotach ac mae'r grisiau ar ysgol ffyniant wedi symud yn bellach oddi wrth eu gilydd.

Mae'r bil lles wedi dod yn anghynaladwy o ddrud, ond mae pris gwirioneddol y methiant hwn wedi cael ei dalu gan y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed. Heddiw mae pum miliwn o bobl yn y DU yn cael budd-daliadau allan o waith, ac mae 1.4 miliwn ohonynt wedi bod yn cael budd-daliadau allan o waith am naw allan o'r deng mlynedd diwethaf. Nid yn unig hynny, ond bellach mae gennym un o'r cyfraddau uchaf o aelwydydd di-waith yn Ewrop, gyda 1.9 miliwn o blant yn byw mewn cartrefi lle nad oes neb â swydd.

Mae bywyd ar fudd-daliadau yn ail gwael i fywyd gwaith, ond mae gormod o'n system bresennol wedi'i anelu tuag at gynnal pobl ar fudd-daliadau yn hytrach na'u helpu i lwyddo mewn gwaith; mae angen diwygio sy'n mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol o ddibyniaeth lles. Dyna pam rydym yn cychwyn ar y rhaglen fwyaf pellgyrhaeddol o newid mae'r system lles wedi'i weld mewn cenedlaethau.

Mae *Credyd Cynhwysol: lles sy'n gweithio* yn nodi dechrau cytundeb newydd rhwng y bobl sydd gan a'r bobl sydd heb. Yn ei graidd, mae Credyd Cynhwysol yn syml iawn a bydd yn sicrhau bod gwaith bob amser yn talu ac yn cael ei weld yn talu.

Bydd Credyd Cynhwysol yn golygu y bydd pobl yn gyson ac yn dryloyw yn well eu byd am bob awr maent yn gweithio a phob punt maent yn eu hennill. Bydd yn torri trwy gymhlethdod y system fudd-daliadau presennol i'w gwneud yn haws i bobl gael y cymorth sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt. Drwy wneud defnydd o wybodaeth technoleg ddibynadwy, byddwn yn symleiddio'r system i ostwng costau gweinyddol a lleihau'r cyfleoedd ar gyfer gwall a thwyll.

Mae ein diwygiadau yn rhoi gwaith, boed yn llawn amser, rhan amser neu ddim ond ychydig oriau'r wythnos, wrth wraidd ein system les. Fel y cyfryw mae'n ymestyn ysgol o gyfle i'r rheini sydd wedi eu heithrio o'r blaen neu sydd ar gyrion byd gwaith.

Y Gwir Anrhydeddus
Iain Duncan Smith AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r Llywodraeth Glymblaid yn benderfynol o ddiwygio'r system fudd-dal i'w gwneud yn decach, mwy fforddiadwy a gwell i ymladd tlodi, diweithdra a dibyniaeth ar les. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ystod o fesurau yn y Gyllideb a'r Adolygiad o Wariant i gyflawni hyn. Ochr yn ochr â'r mesurau hyn gwnaethom yr ymrwymiad i ailwampio'r system fudd-daliadau i hyrwyddo gwaith a chyfrifoldeb personol.

2. Mae'r Papur Gwyn hwn yn gosod allan cynlluniau'r Llywodraeth Glymblaid i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r system les drwy greu Credyd Cynhwysol newydd. Bydd y Credyd Cynhwysol yn symleiddio'r system er mwyn gwneud i waith dalu a brwydro yn erbyn diweithdra a thlodi. Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu'r angen am newid, sut y bydd Credyd Cynhwysol yn gweithio, sut y bydd yn effeithio ar reini sy'n cael budd-daliadau a'i effaith ehangach.

3. Roedd ein dogfen ymgynghori, Lles yn y 21ain Ganrif (Cm 7913, Gorffennaf 2010) yn gosod allan y problemau o gymhellion gwaith gwael a chymhlethdod y systemau budd-dal a Chredydau Treth presennol. Gwahoddwyd cyfraniadau gan y cyhoedd a derbyniwyd dros 1,600 o ymatebion drwy gyfrwng y post, e-bost a thrwy ein safle ymgynghori ar-lein. Roedd cytundeb cyffredinol ar gyfer yr angen am ddiwygio gyda chefnogaeth gref ar gyfer ein hamcanion o symleiddio'r system a gwneud i waith dalu. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar yr opsiynau penodol ar gyfer diwygio yn cydnabod yr atyniadau o symud tuag at un budd-dal. Ceir adroddiad cryno ar yr ymatebion wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae adroddiad llawnach, Ymatebion i ymgynghoriad Lles yn y 21ain Ganrif (Cm 7971, Tachwedd 2010), yn ymddangos heddiw ochr yn ochr a'r cyhoeddiad hwn.

"Rydym yn gyffredinol yn croesawu'r cyfeiriad o ddiwygio lles a gynigir gan y Llywodraeth Glymblaid ac rydym yn cefnogi'r bwriad i wneud y system budd-daliadau'n symlach a chliriach ar gyfer derbynwyr, ac i wneud gwaith dalu."
Cyngor Ar Bopeth

"...mae manteision sylweddol i gael system budd-daliadau a Chredydau Treth mwy integredig: byddai'n lleihau costau gweinyddol y Llywodraeth a chyfanswm yr arian a gollwyd o ganlyniad i dwyll a gwallau, ac yn symlach i dderbynwyr i'w deall, a allai annog rhai i fynd i mewn i waith. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn, ac yn ystyried bod achos cryf o blaid integreiddio'r holl fudd-daliadau a Chredydau Treth i mewn i un budd-dal." **Sefydliad Astudiaethau Cyllidol**

4. Ar gyfer pobl sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau gall yr hyn maent yn ei elwa o waith fod yn isel iawn. O dan y system bresennol mae nifer yn cael y cyfan neu bron y cyfan o'u henillion wedi'i dynnu o'u budd-daliadau. Mae'r diffyg hwn o unrhyw elw sylweddol o waith yn cael ei ychwanegu ato gan gymhlethdod y budd-daliadau allan o waith a Chredydau Treth mewn gwaith a Budd-dal Tai, gan greu datgysylltiad rhwng budd-daliadau allan o waith a chymorth mewn gwaith. Mae cymryd swydd sydd â chyflog isel yn golygu bod pobl yn wynebu perygl mawr gan fod Credydau Treth yn cael eu cyfrifo a Budd-dal Tai yn cael ei addasu dros wythnosau ac weithiau misoedd. Rydym yn gwybod bod llawer ddim yn barod i gymryd y risg ac o ganlyniad yn parhau'n gaeth i fudd-daliadau am nifer o flynyddoedd.

5. Mae hyn yn effeithio arnom ni i gyd, nid yn unig y rhai sydd ar fudd-dal nad ydynt bellach yn gweld gwaith fel y llwybr gorau allan o dlodi. Mae costau cymdeithasol ac economaidd methiannau'r system bresennol yn cael eu talu gan gymdeithas yn gyffredinol, gan fod peidio â gweithio yn difetha cyfleoedd bywyd rhieni a phlant ac yn lleihau cynhyrchiant potensial y wlad. Mae gan y DU un o'r cyfraddau uchaf o blant sy'n tyfu i fyny mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio ac mae'r patrwm hwn yn ailadrodd ei hun drwy'r cenedlaethau. Mae llai na 60 y cant o rieni unigol yn y DU mewn cyflogaeth, o gymharu â 70 y cant neu fwy yn Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd.

6. Bydd Credyd Cynhwysol yn dechrau newid hyn. Bydd yn ailgyflwyno'r diwylliant o weithio mewn cartrefi lle y gallai fod wedi bod yn absennol ers cenedlaethau.

7. Mae Credyd Cynhwysol yn gredyd oedran gweithio integredig a fydd yn rhoi lwfans sylfaenol gydag elfennau ychwanegol ar gyfer plant, anabledd, tai a gofal. Bydd yn rhoi cymorth i bobl i mewn ac allan o waith, gan ddisodli Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

8. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau nad oes neb yn waeth eu byd fel canlyniad uniongyrchol o'r diwygiadau hyn. Rydym wedi sicrhau na fydd unrhyw un yn cael gostyngiad yn y budd-dal a gânt o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol.

9. Bydd Credyd Cynhwysol yn gwella cymhellion ariannol gwaith drwy sicrhau bod cymorth yn cael ei ostwng ar gyfradd gyson a dan reolaeth wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith ac yn cynyddu eu horiau gwaith a'u henillion. Yn gyffredinol bydd pobl yn cadw mwy o'u henillion iddynt eu hunan a'u teuluoedd nag yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.

10. Bydd Credyd Cynhwysol hefyd yn cael gwared ar gymhlethdodau'r system bresennol sy'n tueddu i or-wobrwyo pobl am weithio nifer penodol o oriau efallai na fydd yn addas iddynt hwy neu eu cyflogwyr. Bydd Credyd Cynhwysol yn sicrhau bod pob swm o waith yn talu'n well nag anweithgarwch ac yn cael gwared â'r rhwystrau presennol i wneud ychydig o waith.

11. Bydd Credyd Cynhwysol yn uno budd-daliadau allan o waith a chymorth mewn gwaith. Golyga hyn na fydd pobl bellach yn gorfod cymryd risg wrth symud o un system i'r llall. Ar gyfer y rhai hynny sydd mewn cyflogaeth bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyfrifo a'i gyflenwi'n electronig, gan addasu taliadau credyd yn awtomatig yn unol ag incwm misol a adroddir drwy fersiwn diwygiedig o'r system dreth Talu Wrth Ennill (y bydd Cyllid a Thollau EM yn ymgynghori arno cyn bo hir). Bydd y system yn symlach ac yn ymateb yn gyflymach i newidiadau mewn enillion fel na fydd pobl yn wynebu'r un cymhlethdodau ag y maent yn ei wneud nawr, yn enwedig ar ddiwedd y flwyddyn dreth. O ganlyniad bydd pobl yn llawer cliriach am eu hawliadau a'r effaith cadarnhaol o gynyddu eu henillion drwy weithio mwy o oriau neu wneud ychydig o oramser.

12. Byddai hyn yn ddatblygiad TG ar raddfa gymedrol, y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i chyflenwyr yn hyderus o'i drin o fewn y gyllideb a'r amserlen.

13. Cefnogir y cymhelliant ariannol clir a ddarperir gan Universal Credyd gan system gadarn o amodoldeb; bydd yn ofynnol ar bobl di-waith sy'n gallu gweithio i gymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i ac i symud i gyflogaeth. Bydd amodoldeb yn ddibynnol ar amgylchiadau unigolion – gan adlewyrchu, er enghraifft, er y dylai'r rhan fwyaf symud i waith llawn amser, i rai pobl gall fod cyfnodau dros dro pan fydd gwaith rhan-amser yn briodol (er enghraifft, ar gyfer rhai rhieni unigol).

14. Bydd amodoldeb cryfach yn ei dro yn cael ei gefnogi gan system newydd o gosbau ariannol. Bydd y cosbau newydd yn cynnig mwy o gymhellion i hawlwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau.

15. Bydd gweinyddiaeth gyffredinol y budd-dal newydd yn cael ei reoli gan un adran – yr Adran Gwaith a Phensiynau – yn wahanol i'r cyflenwad cymhleth presennol o'r system fudd-daliadau drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM ac Awdurdodau Lleol. Bydd gan bobl un system i gysylltu ag yn hytrach na gorfod ailadrodd gwybodaeth i'r tri chorff ar wahân, ac felly'n cryfhau'r cysylltiad rhwng cymorth ariannol a'r farchnad lafur.

16. Fel system symlach a llai gweinyddol, bydd Credyd Cynhwysol yn lleihau'r cyfle o gamgymeriadau costus ar ran derbynwyr a gweinyddwyr. Drwy ganiatáu derbynwyr i gael budd ariannol o wneud symiau bach o waith afreolaidd bydd Credyd Cynhwysol yn lleihau'r cymhelliant i bobl cyflawni twyll trwy fethu â datgan gwaith. Bydd system symlach ac awtomataidd wedi'i gysylltu â threthi ac enillion hefyd yn ei gwneud yn rhwyddach i ganfod ac erlyn twyll trefnus difrifol.

17. Dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant mae £2 biliwn wedi'i neilltuo fel rhan o setliad yr Adran Gwaith a Phensiynau i ariannu gweithrediad y Credyd Cynhwysol.

18. Yn y pen draw rydym yn disgwyl i effaith y Credyd Cynhwysol ar gymdeithas fod yn sylweddol. Rydym yn disgwyl y gall cyn gymaint a 350,000 o blant a 500,000 o oedolion gael eu codi allan o dlodi gan y newidiadau hyn, drwy'r newidiadau i amodoldeb a chynyddu mewn ceisiadau budd-dal.

19. Ar ben hyn rydym yn gwybod bod gwaith, a'r incwm gwell sy'n deillio ohono, yn cael effeithiau buddiol o ran iechyd a lles pobl, cyraeddiadau addysgol plant a gwelliannau mewn cymunedau, megis llai o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n anodd mesur yr effeithiau hyn yn fanwl ond nid oes unrhyw amheuaeth am eu bodolaeth.

20. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Mesur Diwygio Lles ym mis Ionawr 2011 i weithredu'r newidiadau hyn. Yna byddwn yn mabwysiadu ymagwedd raddol at gyflwyno Credyd Cynhwysol gyda'r disgwyl i'r unigolion cyntaf fynd yn ymuno â'r system newydd o 2013, yn cael eu dilyn gan gau ceisiadau budd-daliadau a Chredydau Treth gyfredol a'u trosglwyddo i'r system newydd.

21. Mae Credyd Cynhwysol yn cynrychioli newid sylfaenol ar gyfer system les Prydain. Bydd yn creu system decach lai gwastraffus a weinyddir gan adran unigol o'r llywodraeth gan ddarparu cymorth integredig sy'n canolbwyntio yn benodol ar sicrhau bod gwaith bob amser yn talu. Bydd yn lleihau tlodi'n sylweddol ac, yn ogystal â bod yn decach, bydd y system hefyd yn fwy cadarn. Bydd y cysylltiadau rhwng taliadau budd-dal, enillion a threth yn ei dro yn gwneud y system yn fwy diogel oddi wrth dwyll a chamgymeriadau a bydd amodoldeb yn gwthio pobl i wneud cymaint o waith ag sy'n rhesymol iddynt.

(h) Hawlfraint y Goron 2010

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

www.dwp.gov.uk